

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

<b>PWYLLGOR:</b>	<b>Pwyllgor Safonau</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>15 Chwefror 2024</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	<b>Ethol Is-Gadeirydd</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	<b>Cynghori'r Pwyllgor ynghylch y Drefn ar gyfer Ethol Is-Gadeirydd</b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b>Mared Wyn Yaxley Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol <a href="mailto:mwyics@ynysmon.llyw.cymru">mwyics@ynysmon.llyw.cymru</a></b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	<b>Lynn Ball Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro <a href="mailto:lbxcs@ynysmon.llyw.cymru">lbxcs@ynysmon.llyw.cymru</a> 01248 752586</b>

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Daeth tymor pedair mlynedd yr Is-Gadeirydd blaenorol i ben ar 5 Chwefror 2024.
- 1.3 Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Is-Gadeirydd.

### 2. Cefndir Deddfwriaethol

- 2.1 Yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd, rhaid i aelodau Pwyllgor Safonau ethol Is-Gadeirydd o blith Aelodau Annibynnol y Pwyllgor (Rheoliad 22 (1)).
- 2.2 Bydd yr Is-Gadeirydd yn cael eu hethol am ba un bynnag yw'r byrraf o'r cyfnodau canlynol:
  - (a) Tymor heb fod yn llai na phedair blynedd nac yn fwy na chwe blynedd neu
  - (b) Tan fydd tymor swydd y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r pwyllgor safonau yn dod i ben. (Rheoliad 22 (7))  
[Oni bai, wrth gwrs, bod yr Is-Gadeirydd yn ymddiswyddo yn gynharach]  
[Yn ogystal, mae darpariaethau ar wahân ar gyfer achosion pan fydd lle gwag yn codi.]

### 3. Cefndir Cyfansoddiadol

- 3.1 Nid yw'r cyfansoddiad yn cyfeirio at dymor yr Is-Gadeirydd. Byddai'n rhesymol ystyried dilyn yr un ddarpariaeth ag ar gyfer ethol Cadeirydd h.y.  
"Bydd y cadeirydd yn cael ei ethol gan aelodau'r Pwyllgor Safonau am gyfnod na fydd yn hwy na phedair mlynedd neu am y cyfnod hwnnw y bydd yr unigolyn yn dal i

fod yn aelod o'r Pwyllgor, pa gyfnod bynnag sydd fyrraf o'r ddau ond bydd yn gymwys i gael eu hail-ethol....”

#### 4. Ethol Cadeirydd

- 4.1 Felly, ar sail yr uchod, rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Is-Gadeirydd o blith yr aelodau canlynol:

Rhys Davies, Brace Griffiths, John Jones, Gill Murgatroyd a Trefor Owen.

- 4.2 Bydd yr Is-Gadeirydd yn cael eu hethol am gyfnod o **bedair blynedd** a byddant yn gymwys i gael eu hail-ethol.
- 4.3 Mae gan bob ymgeisydd hawl i bleidleisio drostyn nhw eu hunain.
- 4.4 Bydd gan y Cadeirydd newydd a benodwyd hawl i ddefnyddio ei bleidlais fwrw os bydd angen.

#### 5. Gwybodaeth am yr Ymgeiswyr

- 5.1 Mae bywgraffiadau'r pum aelod annibynnol wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad hwn.

Rhys Davies – **Atodiad 1**  
Brace Griffiths – **Atodiad 2**  
John Jones – **Atodiad 3**  
Gill Murgatroyd – **Atodiad 4**  
Trefor Owen – **Atodiad 5**

- 5.2 Rhaid dewis yr Is-Gadeirydd o blith y pum enw uchod, ac eithrio'r unigolyn a gafodd eu hethol yn Gadeirydd.
- 5.3 Nid oes Manyleb Rôl benodol ar gyfer yr Is-Gadeirydd. Rôl yr Is-Gadeirydd yw cefnogi'r Cadeirydd yn eu rôl nhw ac i ymgymryd â rôl y Cadeirydd yn ôl yr angen. Ar y sail honno, mae Disgrifiad Rôl y Cadeirydd i'w gweld [yma](#).

#### 6. Argymhelliad

- 6.1 Bod y Pwyllgor Safonau'n ethol Is-Gadeirydd o blith ei aelodau annibynnol am dymor o bedair blynedd (a bydd yn gymwys i gael eu hail-ethol)

**Rhys Davies**

Yn enedigol o Fôn, aeth Rhys i astudio deintyddiaeth yng Nghaerdydd ar ôl bod yn ddisgybl yn Ysgol David Hughes. Bu'n ddeintydd yn ei bractis yn Llangefni am dros 30 mlynedd, a hefyd cafodd gyfnod gyda'r gwasanaeth deintyddol cymunedol.

Mae bellach wedi ymddeol ond mae'n parhau i fyw ar yr ynys.

Yn y gorffennol, bu Rhys yn aelod o Gyngor Cynulleidfa'r BBC (Cymru), yn Ymddiriedolwr dros Ganolfan Lôn Abaty Bangor, yn Gadeirydd ar Y Gymdeithas Ddeintyddol, yn Ynad ar fainc Ynys Môn/Gwynedd ac yn aelod annibynnol o'r Cyngor Iechyd Cymunedol gan gadeirio Pwyllgor Lleol Dinbych.

Yn ddiweddar, cafodd Rhys ei benodi yn Aelod o Fwrdd Cyngori "Mwy na Geiriau", corff sy'n adrodd i'r Gweinidog Iechyd, Llywodraeth Cymru.

**Rhys Davies**

Originally from Anglesey, Rhys studied dentistry in Cardiff after having been a pupil at Ysgol David Hughes. He was a dentist at his practice in Llangefni for over 30 years and also spent a period with the community dentist service.

He is now retired but continues to live on the Island.

In the past, Rhys was a member of the BBC (Wales) Audience Council, was a Trustee for the Abbey Road Bangor Centre, was Chair of the Dentistry Society, a Magistrate on the Anglesey / Gwynedd bench of Magistrates and was an independent member of the Community Health Council, chairing the Denbighshire Local Committee.

Rhys was recently appointed as a Member of the "More than Words" Advisory Board, a body which reports to the Health Minister of Welsh Government.

**Brace Griffiths**

Rwyf yn frodor o Fôn ac wedi byw a gweithio yng ngogledd Cymru ar hyd fy oes, fwy neu lai.

Rwyf newydd ymddeol ac roeddwn yn arfer gweithio fel Uwch Reolwr Polisi yn Adran Economaidd Llywodraeth Cymru. Cyn ymuno â Llywodraeth Cymru, roeddwn yn gweithio i Lywodraeth y DU.

Rwyf yn Aelod Siartredig o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu.

Y tu allan i'r gwaith, rwyf wedi gweithio mewn rolau gwirfoddol ers nifer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd rwyf yn aelod o Llais, sef sefydliad annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gynrychioli barn pobl sy'n derbyn gofal iechyd a chymdeithasol. Mae Llais wedi disodli'r Cyngor Iechyd Cymuned y bŵm yn aelod ohono am 11 mlynedd. Rwyf hefyd wedi bod yn ffodus o gael treulio cyfnod fel Cyfarwyddwr a Chadeirydd Menter Môn ac Agoriad, sydd wedi'u lleoli ym Mangor.

Mae gen i ferch a thri o wyrion, sydd hefyd yn byw ar Ynys Môn.

Mae fy niddordebau'n cynnwys rygbi, gwella fy ngwybodaeth am hanes lleol a theithio.

**Brace Griffiths**

I am a native of Anglesey and have lived and worked in North Wales for most of my life.

I have recently retired from the Welsh Government, where I worked as a senior policy manager within the Economy Department. Prior to joining the Welsh Government, I worked for the UK Government.

I am a Chartered Member of the Chartered Institute of Personnel and Development.

Outside of work I have, for many years, undertaken voluntary roles. I am currently a member of Llais, an independent organisation set up by the Welsh Government, to represent the views and experiences of people using health and social care. Llais replaced the Community Health Council, which I was a member of for 11 years. I have also been fortunate to spend a period of time as a Director and Chair of Menter Mon and of Agoriad, based in Bangor.

I have a daughter and three grandchildren, who also live on Anglesey.

My interests include, rugby, improving my knowledge of local history and travel.

**John R Jones**

Cefais y fraint o fod yn Brif Swyddog Medrwn Môn, sef y Cyngor Gwirfoddol Sirol sydd yn hybu a chefnogi gweithgaredd gwirfoddol a chymuned ar Ynys Môn am nifer o flynyddoedd hyd at fy ymddeoliad yn 2016.

Felly mae fy mhrofiad gwaith yn y sector wirfoddol ac mewn swyddi rheoliaethoddol. Rhan o fy ngwaith oedd datblygu perthynas adeiladol gyda chyrff statudol felly mae gennyf brofiad helaeth o weithio gydag awdurdodau cyhoeddus drwy fod yn rhan o bwyllgorau, gweithgorau ayyb. Cefais y fraint o weithredu fel cynghorydd cymuned am nifer o flynyddoedd ac wedi bod yn lywodraethwr ar gymuned ac yn gadeirydd corf llywodraethwyr ysgol uwchradd.

Yr wyf yn frodor o Ynys Môn ac wedi ei fagu, ei addysgu ac wedi gweithio yma rhan fwyaf o'm hoes ond cefais brofiad o dderbyn addysg bellach ac o weithio tu hwnt i'r Afon Fenai am gyfnod. Rwyf yn briod, yn dad i dri o blant ac yn daid i ddau.

Fy niddordebau yw teulu, fy nghymuned, golf, rygbi, beicio a cherdded.

**John R Jones**

I had the privilege of being Chief Officer at Medrwn Môn which is the County Voluntary Council which promotes and supports voluntary activities and communities on Anglesey, up to my retirement in 2016.

My work experience is therefore in the voluntary sector and in management posts. Part of my work included developing a constructive relationship with statutory bodies so I have vast experience of working with public bodies and being part of committees, working groups etc. I had the privilege of working as a community councillor for a number of years and have been a primary school governor and chairman of a secondary school governors body.

I am from Anglesey and was raised and educated here and have worked here for most of my life but have also had experience of further education and working the other side of the Menai for a period. I am married, a father to two children and a grandfather to two.

My interests include family, my community, golf, rugby, cycling and walking.

**Gill Murgatroyd**

Mae Gill yn Gymrawd Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu a chanddi nifer o flynyddoedd o brofiad fel Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn y maes Tai Cymdeithasol. Gweithiodd yn y gorffennol hefyd fel Cyfarwyddwr ei busnes ymgynghori AD a Datblygiad Sefydliadol ei hun ac mewn rolau AD uwch yn y sector cyhoeddus a'r sector breifat gan gynnwys ym meysydd Gwasanaethau Ariannol, y diwydiant Modurol, Ynni/Cyfleustodau, Adwerthu ac Amddiffyn.

Mae Gill yn aelod o Bwyllgor Safonau Cyngor Conwy, Cyngor Sir Fflint ac Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae hi hefyd yn Aelod o Banel Rheoleiddio ac yn Gadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru, yn Aelod Lleyg ar y Pwyllgor Ymchwiliol Rheoleiddio Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yn Aelod Panel Annibynnol ar Dribiwnlysoedd Apeliadau Heddlu a Gwrandawiadau Camymddygiad Heddlu yng Nghymru. Bu hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol ar gyfer dau sefydliad elusennol lleol ac yn aelod o Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ar gyfer Athrawon.

Mae Gill yn byw yn Llandudno ac yn ei hamser hamdden mae'n mwynhau cerdded yn y mynyddoedd ac o amgylch arfordir Gogledd Cymru.

**Gill Murgatroyd**

Gill is a Fellow of the Chartered Institute of Personnel & Development, with many years' experience as a Director of Human Resources in Social Housing. She has also previously been the Director of her own HR & Organisation Development consultancy business, as well as having worked in senior HR roles in both the public & private sectors, including Financial Services, Automotive, Energy/Utilities, Retail & Defence.

Gill is a member of the Standards Committee for Conwy County Bough Council, Flintshire County Council, & the North Wales Fire & Rescue Authority. She is also a Regulatory Panel Member & Chair for Social Care Wales, a Lay Panel Member on the Regulatory Investigating Committee for the Nursing & Midwifery Council, as well as an Independent Panel Member on the Police Misconduct Hearings & Police Appeals Tribunals in Wales. She has also previously been a non-executive director for two local charitable organisations & a member of the Independent Welsh Pay Review Body for Teachers.

Gill lives in Llandudno, & in her spare time enjoys walking in the mountains & around the coast of North Wales.

**Trefor Owen**

Mae Trefor yn Gymrawd (Ymdd.) o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig, gyda bron i 40 mlynedd o brofiad fel Gwas Sifil yn gwasanaethu Llywodraeth EM, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Mae wedi gweithio mewn rolau uwch arweinyddiaeth, datblygu polisi, cyflwyno gweithredol a rheoli rhaglenni. Roedd hyn yn cynnwys gwaith blaenllaw i ddatganoli a sefydlu trefniadau newydd ar gyfer coedwigaeth yng Nghymru a'r Alban.

Mae Trefor wedi dychwelyd i fyw yn Ynys Môn, ac yn mwynhau gwirfoddoli gyda Gwylwyr y Glannau EM, cerdded Llwybr Arfordirol Ynys Môn, teithio a threulio amser gyda'i deulu.

**Trefor Owen**

Trefor is a Fellow (Retd.) of the Institute of Chartered Foresters, with almost 40 years experience as a Civil Servant serving HM Government, the Welsh Government and the Scottish Government. He has worked in senior leadership, policy development, operational delivery and programme management roles. This included leading work to devolve and establish new arrangements for forestry in Wales and Scotland.

Trefor has returned to live in Anglesey, and enjoys volunteering with HM Coastguard, walking the Anglesey Coastal Path, travel and spending time with his family.